# Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig

## Disgrifiad Cryno o Adeilad Rhestredig:

Rhif Cyfeirnod
87777

Rhif yr Adeilad

Gradd
II

Statws
Dynodedig

Dyddiad Dynodi
14/12/2018

Dyddiad Diwygio

Enw
Pont Rhandirmwyn (yn rhannol yng nghymuned Cilycwm)

Cyfeiriad

## Lleoliad

Awdurdod Unedol
Sir Gaerfyrddin

Cymuned
Llanfair-ar-y-Bryn

Tref

Ardal

Dwyreiniad

276761

Gogleddiad
244718

Ochr o'r Stryd

Lleoliad
Yn croesi afon Tywi tua 2 gilomedr i'r gogledd-orllewin o bentref Rhandirmwyn

## Disgrifiad

Dosbarthiad bras
Cludiant

Cyfnod

Cyfnod
Cafodd ei hadeiladu yn 1913 i gymryd lle dwy ryd a phont droed dros afon Tywi mewn man ar ei hydoedd uchaf lle mae'n ymuno ag afon Gwenffrwd. Cafodd darn newydd o ffordd ei adeiladu i'r gogledd-ddwyrain ar yr un pryd (yn lle'r llwybr o'r bont droed) i fferm Broncwrt ac a oedd wedyn yn ymuno â'r ffordd o Randirmwyn. Cafodd ei dylunio gan HA Ellis, peiriannydd o Abertawe, a'i hadeiladu gan Rees & Kirby Ltd o Dreforys gan ddefnyddio cynllun Trawst Warren. Cafodd Trawst Warren ei batentu gan James Warren a Willoughby Theobald Monzani yn 1848. Roeddent yn defnyddio elfennau pwysau ysgafnach yn ei adeiladwaith a oedd yn golygu y gellid codi pontydd cadarn ac ysgafn ac roedd yn ddelfrydol ar gyfer pontydd parod modiwlar. Byddai pont Rhandirmwyn wedi cael ei hadeiladu yn Abertawe a'i chludo i'w lleoliad anghysbell (ar y trên i Lanymddyfri fwy na thebyg) ar ffurf pecyn, neu wedi'i gosod yn rhannol o bosibl, ac yna ei chodi yn y lleoliad yn y pen draw.

Tu allan
Pont ffordd, adeiladwaith dur a oedd yn defnyddio trawstiau Warren ag uniadau anhyblyg a 3 croeslath afaelfachog. Arwyneb tarmac ar ddec y ffordd, wedi'i gynnal gan groeslathau. Plât bwrw ar ben y bont 'RHANDIRMWYN BRIDGE 1913 – H.A. Ellis SWANSEA ENGINEER – REES & KIRBY LTD MORRISTON BRIDGE BUILDERS'. Cysylltfuriau cerrig ymyl ffordd â cholofnau ac addurniadau brics ynghlwm wrth yr ochr ogledd-ddwyreiniol a'r ochr dde-orllewinol.

Tu mewn

Rheswm dros Ddynodi
Wedi'i chynnwys oherwydd ei diddordeb pensaernïol arbennig fel enghraifft brin o bont Drawst Warren, sef math anarferol o bont ffordd ddur. Mae ffurf ei hadeiladwaith, sy'n defnyddio cydrannau parod ysgafn, yn addas iawn ar gyfer lleoliad anghysbell dyffryn Tywi uchaf. Mae hefyd o bwysigrwydd hanesyddol fel enghraifft o welliant i drafnidiaeth ffordd mewn ardal wledig yng Nghymru.

# Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig

## Disgrifiad Cryno o Adeilad Rhestredig:

Rhif Cyfeirnod
87778

Rhif yr Adeilad

Gradd
II

Statws
Dynodedig

Dyddiad Dynodi
14/12/2018

Dyddiad Diwygio

Enw
Pont Rhandirmwyn (yn rhannol yng nghymuned Llanfair-ar-y-Bryn)

Cyfeiriad

## Lleoliad

Awdurdod Unedol
Sir Gaerfyrddin

Cymuned
Llanfair-ar-y-Bryn

Tref

Ardal

Dwyreiniad
276753

Gogleddiad
244708

Ochr o'r Stryd

Lleoliad
Yn croesi afon Tywi tua 2 gilomedr i’r gogledd-orllewin o bentref Rhandirmwyn

## Disgrifiad

Dosbarthiad bras
Cludiant

Cyfnod

Cyfnod

Tu allan
Gweler Cofnod Rhif 87777 yn Llanfair-ar-y-Bryn Cymuned i gael disgrifiad llawn y bont hon.

Tu mewn

Rheswm dros Ddynodi